

Ystyr ffordd o weithio **dan arweiniad y gymuned/teulu** yw pan fydd aelodau'r gymuned yn gweithio gyda'i gilydd i greu a chyflawni nodau.

Mae pobl sy'n byw yn y gymuned yn gwneud penderfyniadau ac yn llunio gwasanaethau gyda'i gilydd.

**Ein dull gweithredu**

# Byddem wrth ein bodd pe baech yn ymuno â ni fel Cysylltydd Teuluoedd Blynyddoedd Cynnar Mencap Cymru ar Ynys Môn

**Mae Mencap Cymru yn defnyddio cyllid grant Pobl a Lleoedd y Loteri Genedlaethol i ddarparu Prosiect Cymorth i Deuluoedd. Mae'r prosiect yn cynnig amrywiaeth o gefnogaeth i deuluoedd ar Ynys Môn sydd â phlentyn ifanc gydag oedi mewn datblygiad / anabledd dysgu sylweddol ac yn gweithio'n gydgynhyrchiol i gynllunio, datblygu, darparu a chydlynu hynny. Rydyn ni eich angen chi!**

**Er mwyn ein helpu i wneud i'r pethau gorau ddigwydd mewn cymunedau lleol, mae angen y tîm gorau arnom. Rydyn ni'n chwilio am unigolyn sydd â'r nodweddion hyn:**

- **Profiad bywyd ac yn hyrwyddo'r gwaith o gynnwys teuluoedd**
- **Yn llawn cymhelliant ac wedi ymroi i ffyrdd o weithio dan arweiniad y gymuned/teulu**
- **Yn angerddol am gyd-gynhyrchu**
- **Ysbryd cymunedol yn ogystal â gwybodaeth leol wych i'w rhannu**

mencap

Rydyn ni am i Ynys Môn fod y lle gorau i blant ag anabledd dysgu a'u teuluoedd. Gan weithio ochr yn ochr â'r Cydlynydd Cymorth i Deuluoedd, bydd y Cysylltydd Teuluoedd yn defnyddio ei brofiad bywyd i ymgysylltu â theuluoedd i greu cymuned lle gall plant ifanc ag anabledd dysgu a'u teuluoedd ffynnu. Darllenwch fwy i weld sut gallech chi helpu.

| Yr hyn y byddwch yn ei wneud | Yr hyn y byddwch chi'n ei gynnig | Eich sgiliau |
| --- | --- | --- |
| Ochr yn ochr â'r Cydlynydd Cymorth i Deuluoedd, byddwch yn cyd-gynhyrchu cyfleoedd a rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid i ddatblygu hyder, grymuso ac ymgysylltu â theuluoedd yn eu cymunedau<br><br>Cyd-gyflwyno sesiynau cymorth a gwybodaeth gyda Chydlynydd Cymorth i Deuluoedd Mencap Cymru a darparwyr gwasanaethau eraill<br><br>Datblygu cyfleoedd ar gyfer cyd-gynhyrchu er mwyn clywed lleisiau teuluoedd mewn ffordd ystyrlon<br><br>Grymuso teuluoedd i ddeall eu hawliau drwy hwyluso gweithgareddau, gweithdai a chyfleoedd a fydd yn eu helpu i gefnogi eu plentyn yn well | Profiad o fod yn rhiant neu'n ofalwr i blentyn sydd ag oedi mewn datblygiad / anabledd dysgu sylweddol<br><br>Gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael ar Ynys Môn ac asedau lleol a phrofiad ohonynt<br><br>Dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu teuluoedd<br><br>Profiad o gefnogi gwaith grŵp / ymgysylltu â'r gymuned<br><br>Profiad o gofnodi a monitro data at ddibenion gwerthuso. Profiad o ddefnyddio MS Office (Word / Excel)<br><br>Rhywfaint o wybodaeth / profiad o ddulliau cyd-gynhyrchu a datblygu cymunedol | Eich profiad bywyd a'ch ymrwymiad i ddefnyddio hyn i rymuso eraill<br><br>Angerdd dros gynnwys plant o bob cefndir a diwylliant a'u teuluoedd<br><br>Sgiliau rhyngbersonol a meithrin perthynas rhagorol ac yn gallu ymgysylltu'n wirioneddol â theuluoedd<br><br>Sgiliau trefnu a chynllunio rhagorol<br><br>Yn gallu cymell eich hun, gweithio ar eich liwt eich hun a blaenoriaethu llwythi gwaith yn effeithiol<br><br>Gwybodaeth leol i'w rhannu am Ynys Môn.<br><br>Yn gallu siarad Cymraeg ac yn eirioli dros y Gymraeg |

**Amda noch chi!**

**Ein dull gweithredu**

Mae **cyd-gynhyrchu** yn ddull lle mae pobl, aelodau o'r teulu, gofalwyr, sefydliadau, cyllidwyr a chomisiynwyr yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gyfartal, gan rannu dylanwad, sgiliau a phrofiad i gynllunio, darparu a monitro gwasanaethau a phrosiectau. **Mae cyd-gynhyrchu yn ffordd o feddwl a gweithio.**

**Cyd-hwyluso** yw pan fydd mwy na un hwylusydd mewn gweithgaredd neu ddigwyddiad. Mae'n caniatáu i chi rannu'r cyfrifoldeb â rhywun arall, ac mae pob unigolyn yn dod â'i gryfderau a'i brofiadau bywyd ei hun.

mencap

# Gyda phwy y byddwch chi'n gweithio

Teuluoedd â phrofiad bywyd → Pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn gwirfoddoli yn y gymuned → Gweithwyr proffesiynol o wasanaethau statudol, gwirfoddol a chymunedol → Partneriaid eraill sy'n cefnogi teuluoedd

Mae rhagor o wybodaeth am sut mae ein prosiectau'n helpu teuluoedd ar gael yma

mencap

## Ein gwerthoedd a'r rôl hon

We are Passionate about making the world a better place

Rydyn ni'n **Angerddol** am wneud y pethau sy'n gwneud y byd yn lle gwell

Byddwch yn **angerddol** dros gryfder cymunedau, ac yn angerddol dros ffyrdd o weithio sy'n cael eu harwain gan y gymuned ac sy'n seiliedig ar asedau.

We are Inclusive of everyone

Rydyn ni'n **Cynnwys** pawb

Byddwch yn **gynhwysol** drwy wneud yn siŵr eich bod yn gweithio gyda theuluoedd amrywiol o'ch cymuned. Mae hyn yn cynnwys y rheini nad yw eu lleisiau bob amser yn cael eu clywed.

We are Brave we challenge and try new things

Rydym yn **Ddewr**

Byddwch yn **ddewr** drwy annog teuluoedd i gael syniadau mawr am yr hyn a fyddai'n gwneud eu cymuned y lle gorau i bawb fyw ynddynt.

We are Positive in our work and with each other

Rydyn ni'n **Gadarnhaol** yn ein gwaith a gyda'n gilydd

Byddwch yn **gadarnhaol** yn y ffordd rydych chi'n gweithio gyda phobl. Byddwch yn eu hannog i rannu eu syniadau eu hunain ac yn eu hyfforddi i'w helpu i gyflawni eu nodau.

We are Kind to everyone

Rydyn ni'n **Garedig** wrth bawb

Byddwch yn **garedig** ac yn ystyriol wrth gyfathrebu, gan annog gwahanol syniadau gan bobl o gefndiroedd amrywiol.